| GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cardiff and Vale University Health Board | **Cyfeirnod:**<br>**Rhif y Fersiwn: 1**<br>**Dyddiad Adolygu Nesaf: 26.11.26**<br>**Rhif Cyfeirnod Blaenorol yr Ymddiriedolaeth / BILI:** Amh |
|---|---|

**GWEITHDREFN ABSENOLDEB A THÂL GOFAL NEWYDDENEDIGOL**

**Cyflwyniad a Nod**

Gall gweithwyr cymwys gymryd absenoldeb gofal newyddenedigol i ofalu am eu babi newydd-anedig sydd angen gofal newyddenedigol heb effeithio ar eu hawl bresennol i absenoldeb rhiant.

Mae eu hawliau cyflogaeth (fel yr hawl i gyflog, gwyliau a dychwelyd i swydd) yn cael eu diogelu yn ystod absenoldeb gofal newyddenedigol.

Mae'r Weithdrefn hon yn nodi'r broses i'w dilyn wrth wneud cais am Absenoldeb Gofal Newyddenedigol, cymryd yr absenoldeb a dychwelyd i'r gwaith yn dilyn Absenoldeb Gofal Newyddenedigol.

**Cwmpas**

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i'r holl staff.

At ddibenion y Weithdrefn hon, nid yw'r rhywedd y neilltuwyd i chi neu eich partner ar enedigaeth yn berthnasol cyn belled â'ch bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a ddisgrifir.

| | |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Iechyd** | Mae'r weithdrefn hon yn dod o dan y Polisi Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth a Rhiant a Rennir ac AEGI.  Canfuwyd effaith gadarnhaol gan yr AEGI hwn. |
| **Dogfennau i'w darllen ar y cyd â'r weithdrefn hon** | Gweithdrefn Absenoldeb a Thâl Mamolaeth<br>Gweithdrefn Absenoldeb a Thâl Mabwysiadu<br>Absenoldeb Rhiant a Rennir a Gweithdrefn Dâl<br>Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol<br>Polisi Absenoldeb Arbennig |
| **Cymeradwywyd gan** | Yr Is-grŵp Polisi Cyflogaeth |
| **Cyfarwyddwr Gweithredol Atebol** | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant |
| **Awdur(on)** | Ymgynghorydd Sicrwydd a Phrofiad Pobl / Cynrychiolydd Staff |

<u>Ymwadiad</u>

**Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydy yn ei defnyddio yw'r un fwyaf diweddar naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu Gyfarwyddiaeth Lywodraethu.**

| **Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y Fersiwn** | **Dyddiad Cymeradwyo Adolygiad** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Crynodeb o Ddiwygiadau** |
| 1 | | | Gweithdrefn newydd ar gyfer babanod a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2025 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Tudalen Gynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyfrifoldebau** | 4 |
| 2 | **Hawl i Absenoldeb Gofal Newyddenedigol** | 4 |
| 3 | **Cymhwysedd ar gyfer Absenoldeb Gofal Newyddenedigol** | 5 |
| 4 | **Cymhwysedd ar gyfer Tâl Gofal Newyddenedigol Statudol** | 5 |
| 5 | **Gwneud cais am Absenoldeb Gofal Newyddenedigol** | 5 |
| 6 | **Mathau o Absenoldeb Gofal Newyddenedigol** | 5 |
| 7 | **Cyfnodau Hysbysu'r Gyflogres** | 6 |
| 8 | **Yn ystod Absenoldeb Gofal Newyddenedigol** | 6 |
| **Atodiadau** | | |
| 1 | **Ffurflen Gais am Absenoldeb Gofal Newyddenedigol – Haen 1** | 7 |
| 2 | **Ffurflen Gais am Absenoldeb Gofal Newyddenedigol – Haen 2** | 8 |

## 1 CYFRIFOLDEBAU

### 1.1 Gweithiwr

- Rhoi gwybod i'w rheolwr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol bod angen Absenoldeb Gofal Newyddenedigol arno
- Cael y weithdrefn hon ar Sharepoint/safle rhyngrwyd y BIP, gan ei reolwr neu gan y Tîm Gwasanaethau Pobl, a gofyn am gyngor ychwanegol os oes angen
- Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r Rheolwr yn ystod absenoldeb Haen 1

### 1.2 Rheolwr

- Sicrhau bod y gweithiwr yn ymwybodol o'i hawliau a'i rwymedigaethau dan y weithdrefn hon a'i fod yn cael amser i ffwrdd a phob hawl arall
- Sicrhau bod y ffurflen gais am absenoldeb Gofal Newyddenedigol wedi'i chydlofnodi yn cael ei throsglwyddo i'r Adran Gyflogres
- Rhoi gwybod i'r gyflogres pryd fydd y gweithiwr yn dechrau Absenoldeb Gofal Newyddenedigol ac yn dychwelyd i'r gwaith

### 1.3 Tîm Gwasanaethau Pobl

- Rhoi gwybod i'r gweithiwr am ei hawliau a'i rwymedigaethau

### 1.4 Cyflogres

- Sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn unol â rheoliadau statudol
- Sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn unol â chredyd cyflog arferol

### 1.5 Undebau Llafur

- Cefnogi aelodau staff yn ystod ac ar ôl y cyfnod Absenoldeb Gofal Newyddenedigol
- Cyfeirio rheolwyr llinell at gymorth sydd ar gael i staff

## 2 HAWLIAU

Mae gan weithiwr hawl i o leiaf wythnos a hyd at 12 wythnos o absenoldeb. Bydd cyfnod yr absenoldeb y mae gan y gweithiwr hawl iddo yn dibynnu ar ba mor hir y mae'r babi yn derbyn gofal newyddenedigol h.y. un wythnos o absenoldeb am bob 7 diwrnod llawn yn olynol y mae'r babi yn eu treulio mewn gofal newyddenedigol.

Mae hyn yn ychwanegol at yr hawl bresennol i absenoldeb rhiant a rhaid ei gymryd o fewn 68 wythnos o ddyddiad geni'r babi.

Rhoddir hawl i Absenoldeb Gofal Newyddenedigol o'r diwrnod cyflogaeth cyntaf.

## 3 CYMHWYSEDD AR GYFER ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i'r ddau riant.

Mae gweithwyr yn gymwys os yw eu babi wedi'i eni ar neu ar ôl 6 Ebrill 2025 ac wedi derbyn gofal newyddenedigol meddygol neu liniarol am o leiaf saith diwrnod yn olynol o fewn y 28 diwrnod cyntaf ar ôl genedigaeth.

Y tri chategori o ofal meddygol sy'n ffurfio gofal newyddenedigol yw:

1. Unrhyw ofal meddygol a dderbynnir yn yr ysbyty
2. Gofal meddygol a dderbynnir yn rhywle arall ar ôl ei ryddhau o arhosiad cleifion mewnol yn yr ysbyty. Rhaid i'r gofal fod o dan gyfarwyddyd meddyg ymgynghorol ac mae'n cynnwys monitro parhaus ac ymweliadau â'r plentyn gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
3. Gofal lliniarol neu ddiwedd oes

## 4 CYMHWYSEDD AR GYFER TÂL GOFAL NEWYDDENEDIGOL STATUDOL

Mae gweithwyr yn gymwys i gael Tâl Gofal Newyddenedigol Statudol yn yr amgylchiadau canlynol:

1. Maen nhw wedi bod yng ngwasanaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro am 26 wythnos neu fwy erbyn diwedd yr wythnos gymhwyso berthnasol.
2. Maen nhw'n gymwys i gael taliadau statudol e.e. Tâl Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu neu Gymorth i Rieni Newydd.

Yr wythnos gymhwyso yw'r 15$^{fed}$ wythnos cyn dyddiad geni disgwyliedig y babi, os oes gan y gweithiwr eisoes hawl i Dâl Mamolaeth neu Dadolaeth, neu os oes eisoes hawl i Dâl Mabwysiadu Statudol, yr wythnos y dywedir wrth y gweithiwr ei fod wedi cael ei baru â babi i'w fabwysiadu.

Cyfradd y Tâl Gofal Newyddenedigol Statudol fydd naill ai'r gyfradd gyflog ar gyfer Tâl Gofal Newyddenedigol Statudol neu 90% o'r enillion wythnosol cyfartalog, pa un bynnag sydd is.

## 5 GWNEUD CAIS AM ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL

I wneud cais, rhaid i weithwyr lenwi'r Ffurflen Gais am Absenoldeb Gofal Newyddenedigol sydd ynghlwm fel Atodiad 1 a 2 yn unol â'r cyfnodau hysbysu fel y manylir yn adran 7.

## 6 MATHAU O ABSENOLDEBAU

**Absenoldeb Haen 1**
Mae hyn yn dechrau pan fydd y babi yn dechrau derbyn gofal newyddenedigol a hyd at wythnos ar ôl ei ryddhau. Mae'r cyfnod hwn yn dod i ben ar y seithfed diwrnod ar ôl i'r babi roi'r gorau i dderbyn gofal newyddenedigol.

Gellir cymryd yr haen hon mewn blociau o wythnos ar y tro heb fod yn barhaus, hyd at uchafswm o 12 wythnos yn dibynnu ar ba mor hir yr oedd y babi yn derbyn gofal newyddenedigol.

**Absenoldeb Haen 2**
Mae hyn yn berthnasol i absenoldeb a gymerir ar ôl i'r cyfnod haen 1 ddod i ben a rhaid ei gymryd mewn un bloc parhaus. Mae'r hawl hon yn dod i ben 68 wythnos ar ôl geni'r plentyn.

Bydd cyfnod yr absenoldeb sydd ar gael yn dibynnu ar nifer yr wythnosau y mae gan y gweithiwr hawl iddynt, llai yr absenoldeb a gymerwyd yn Haen 1. Hynny yw, os oes gan y cyflogai hawl i 7 wythnos o absenoldeb a chymerwyd 3 wythnos o absenoldeb yn Haen 1, dim ond 4 wythnos sydd ar gael i'w cymryd yn Haen 2.

## 7 CYFNODAU HYSBYSU

Mae'n ofynnol i weithwyr cymwys roi'r rhybudd canlynol:

**Absenoldeb haen 1**
Rhaid rhoi hysbysiad cyn i'r cyflogai ddechrau gweithio ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb bob wythnos, neu os nad yw hyn yn bosibl, rhaid rhoi rhybudd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Tâl Haen 1**
Rhaid rhoi hysbysiad o fewn 28 diwrnod o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb y mae'r cyfnod yn ymwneud ag ef neu os nad yw hyn yn bosibl, dylid rhoi hysbysiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Absenoldeb a thâl Haen 2**
Ar gyfer un wythnos o absenoldeb a thâl, rhaid derbyn hysbysiad ysgrifenedig o leiaf 15 diwrnod cyn y diwrnod cyntaf o absenoldeb gofal newyddenedigol.

Am gyfnod o bythefnos neu fwy o absenoldeb a thâl, rhaid derbyn hysbysiad ysgrifenedig o leiaf 28 diwrnod cyn y diwrnod cyntaf o absenoldeb y mae'r cyfnod yn ymwneud ag ef. Rhaid i'r cyfnod hwn fod yn un bloc parhaus o absenoldeb.

## 8 YN YSTOD ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL

Yn ystod absenoldeb gofal newyddenedigol mae'r gweithiwr yn cadw ei holl hawliau cytundebol ac eithrio tâl. Bydd hawliau a chyfraniadau pensiwn yn cael eu trin yn unol â Rheoliadau Blwydd-daliadau'r GIG. Dylid ystyried cyfnodau o absenoldeb gofal newyddenedigol fel gwasanaeth parhaus.

Mae cymorth ar gael i staff sydd â phlentyn sy'n derbyn Gofal Newyddenedigol gan y sefydliadau canlynol:
Tîm Lles Cyflogeion

## Atodiad 1 – FFURFLEN GAIS AM ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL – Haen 1

| **FFURFLEN GAIS AM ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL A THÂL – Absenoldeb Haen 1**<br><br>Ar ôl iddi gael ei chwblhau a'i llofnodi gan eich rheolwr, dylid anfon y ffurflen hon i'r Adran Gyflogres. Gwnewch yn siŵr bod y ffurflen hon wedi'i chwblhau'n llawn er mwyn osgoi oedi wrth brosesu eich cais. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **A: MANYLION PERSONOL (i'w cwblhau gan y Cyflogai)** | | | | | |
| Enw | | | | | |
| Cyfeiriad Cartref (yn cynnwys y cod post) | | | | | |
| Rhif ffôn (cartref) | | Rhif ffôn (gwaith) | | Oriau gwaith fesul wythnos | |
| Adran | | Rhif Cyflogai | | Rhif YG | |
| Ticiwch y blwch hwn os oes gennych chi fwy nag un swydd gyda'r BIP | | | Ticiwch y bwlch hwn os ydych yn gweithio i Fanc Nyrsio'r BIP | | |

| **B: MANYLION ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL (gan gynnwys Gofalwyr Enwebedig)** | |
|---|---|
| Dyddiad geni'r plentyn: | / / |
| Dyddiad dechrau gofal newyddenedigol (rhaid i hyn fod o fewn 28 diwrnod i'r enedigaeth) | / / |
| | |
| **Absenoldeb Gofal Newyddenedigol Haen 1** | |
| Hoffwn ddechrau Absenoldeb Gofal Newyddenedigol Haen 1 ar:<br>(Ni chaiff hwn fod cyn y dyddiad uchod) | / / |
| Disgrifiwch sut rydych chi am gymryd yr absenoldeb hwn (os yw'n hysbys): **Rhaid ei gymryd mewn blociau o wythnos** | |

**Datganiad (arwyddwch un):**
Rwy'n datgan fy mod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd ar gyfer Absenoldeb a Thâl Gofal Newyddenedigol fel y manylir yn y Weithdrefn Absenoldeb a Thâl Gofal Newyddenedigol.

LLOFNOD……………………………………………………………………………..
DYDDIAD……………………………..

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymeradwywyd y cais hwn gan: LLOFNOD (Rheolwr) | | Dyddiad | |
| PRINTIO'R ENW YN LLAWN (Rheolwr) | | | |
| TEITL Y SWYDD | | | |

## Atodiad 2 – FFURFLEN GAIS AM ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL – Haen 2

**FFURFLEN GAIS AM ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL A THÂL – Absenoldeb Haen 2**

Ar ôl iddi gael ei chwblhau a'i llofnodi gan eich rheolwr, dylid anfon y ffurflen hon i'r Adran Gyflogres. Gwnewch yn siŵr bod y ffurflen hon wedi'i chwblhau'n llawn er mwyn osgoi oedi wrth brosesu eich cais.

| **A: MANYLION PERSONOL (i'w cwblhau gan y Cyflogai)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw | | | | | |
| Cyfeiriad Cartref (yn cynnwys y cod post) | | | | | |
| Rhif ffôn (cartref) | | Rhif ffôn (gwaith) | | Oriau gwaith fesul wythnos | |
| Adran | | Rhif Cyflogai | | Rhif YG | |
| Ticiwch y blwch hwn os oes gennych chi fwy nag un swydd gyda'r BIP | | | Ticiwch y bwlch hwn os ydych yn gweithio i Fanc Nyrsio'r BIP | | |

| **B: MANYLION ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL (gan gynnwys Gofalwyr Enwebedig)** | |
|---|---|
| Dyddiad geni'r plentyn: | / / |
| Dyddiad dechrau gofal newyddenedigol (rhaid i hyn fod o fewn 28 diwrnod i'r enedigaeth) | / / |
| Dyddiad y daeth gofal newyddenedigol i ben | / / |
| | |
| **Absenoldeb Gofal Newyddenedigol Haen 2** | |
| Nifer yr wythnosau yr oedd y babi mewn gofal newyddenedigol | Nifer yr wythnosau: |
| Faint o Absenoldeb Gofal Newyddenedigol Haen 2 ydych chi am wneud cais amdano? (Nifer yr wythnosau yr oedd y babi mewn gofal newyddenedigol minws nifer yr wythnosau a gymerwyd yn Haen 1) (Uchafswm o 12 wythnos) **rhaid cymryd hyn mewn un bloc parhaus** | Nifer yr wythnosau: |
| Hoffwn ddechrau Absenoldeb Gofal Newyddenedigol Haen 2 ar: (rhaid i hyn fod ar ôl i'r absenoldeb Haen 1 ddod i ben) | / / |
| Hoffwn ddod ag Absenoldeb Gofal Newyddenedigol Haen 2 i ben ar: (ni all hwn fod yn fwy na 68 wythnos ar ôl dyddiad geni'r plentyn) | / / |

**Datganiad (arwyddwch un):**
Rwy'n datgan fy mod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd ar gyfer Absenoldeb a Thâl Gofal Newyddenedigol fel y manylir yn y Weithdrefn Absenoldeb a Thâl Gofal Newyddenedigol.

LLOFNOD…………………………………………………………………………..
DYDDIAD……………………………..

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymeradwywyd y cais hwn gan: LLOFNOD (Rheolwr) | | Dyddiad | |
| PRINTIO'R ENW YN LLAWN (Rheolwr) | | | |
| TEITL Y SWYDD | | | |